

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Hyfforddi a Datblygu
Swydd	Datblygydd Amlgyfrwng
Rhif y Swydd	504044
Gradd	8
Lleoliad	Canolfan hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd (Disgwylir i'r ymgeisydd weithio o leoliadau eraill ar draws ardal y Gwasanaeth)
Yn gyfrifol i'r	Rheolwr Gorsaf y Prosiect - Learn Pro

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Darparu gwasanaeth dylunio ac amlgyfrwng o ansawdd ac effeithlon trwy greu, datblygu a chynhyrchu asedau a deunyddiau amlgyfrwng i gefnogi holl weithgareddau'r Gwasanaeth yn ymwneud â hyfforddiant, dysgu, datblygu a chymhwysedd sgiliau parhaus.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Dylunio a datblygu asedau amlgyfrwng, pecynnau e-ddysgu, lle bo'n briodol, pecynnau Learn Pro a chyflwyniadau eraill gan ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd a chymhorthion gweledol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i: Adobe CC, Powerpoint, Articulate, Lectora, Lab Advance, adnoddau Ar-lein ac ati.) ar gyfer cyrsiau ar-lein a chysiau dan arweiniad hyfforddwr yn seiliedig ar anghenion lleol a Chymru gyfan, yn ôl y gofyn.
2. I ddarparu cefnogaeth arbenigol i ddatblygu a chynhyrchu dyluniadau dychmygus, dogfennau (gan gynnwys llawlyfrau hyfforddi, tystysgrifau a deunyddiau hyfforddi eraill, megis dogfennaeth arholiadau technegol), cyflwyniadau amlgyfrwng a Powerpoint a gwaith celf gan ddefnyddio meddalwedd briodol.
3. Datblygu a chynhyrchu deunyddiau gweledol ar gyfer pecynnau amlgyfrwng rhyngweithiol gan ddefnyddio ystod o feddalwedd lluniadu, ffotograffig, animeiddio fideo a sain.
4. Darparu gwasanaeth ffotograffig a fideo ar gyfer Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd i gwmpasu digwyddiadau arbennig a seremonïau graddio ar gyfer hyfforddeion newydd.

5. Er mwyn sicrhau bod caledwedd amlgyfrwng (e.e. Camerâu ac ati) yn weithredol ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn barod i'w ddefnyddio, gan gynnwys caffael offer newydd, yn ôl y gofyn, a darparu cefnogaeth dechnegol i'r adran hyfforddi mewn perthynas â'i hanghenion amlgyfrwng.
6. I gipio a golygu cyfryngau ffotograffig a fideo i ddatblygu a/neu i wella cynnwys cyfryngau ar gyfer cyflwyniadau.
7. Cydweithio â Datblygwyr Amlgyfrwng eraill ar draws y sefydliad ac mewn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill i greu pecynnau datblygu arloesol ar gyfer y sefydliad a sicrhau bod cynnwys yn unol â Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a Chanllawiau Gweithredol Cenedlaethol (y sawl a'u derbyniwyd).
8. Cynnal, datblygu a chefnogi System Rheoli Dysgu'r Gwasanaeth SRhD) a'i gymhwyso o fewn y Gwasanaeth, gan gynnwys rheoli cyrsiau a lwythwyd i fyny a darparu adroddiadau system i randdeiliaid mewnol ac allanol fel megis LICC.
9. Cynnal a llwytho cynnwys fideo i'r Gweinydd Ffrydio Fideo o fewn y fformat penodedig.
10. Cysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol e.e. Cyllid AD, Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru, darparwyr y Sector Preifat ac ati o ran gofynion hyfforddiant e-ddysgu pwrpasol a'u cymhwysiad a'u dyluniad o fewn systemau gwaith cyfredol y Gwasanaeth.
11. I sicrhau cydymffurfedd â chyfraith hawlfraint ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall a derbyn caniatad i atgynhyrchu deunyddiau hawlfraint er mwyn sicrhau osgoi tresmasiadau cyfreithiol.
12. I sicrhau bydd yr holl ddeunyddiau a gynhyrchir yn cydymffurfio â delwedd gorfforaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ac y'i dylunir yn unol â'r safonau ansawdd angenrheidiol.
13. I gynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau technolegol ac argymell gwelliannau i'r caledwedd/meddalwedd cyfredol drwy fynychu Cyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr yn ôl y gofyn.
14. I gynorthwyo â gwerthuso a gosod meddalwedd newydd/diweddaredig.
15. Cynhyrchu fideos, deunyddiau dysgu ar-lein, CD-Roms, DVD, cyflwyniadau, yn ôl yr angen.
16. I gefnogi a gweithio gydag asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.
17. I sicrhau cydymffurfedd â'r Ddeddf Diogelu Data a sicrhau y cynhelir diogelwch data. (Yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol).
18. I gynorthwyo i ddatblygu, dylunio a chynnal a chadw tudalennau Mewnruwyd yr Adran Hyfforddi, yn ôl y gofyn

19. Cyflawni pob agwedd o'r rôl ar y safle ac ar leoliadau ledled ardal y Gwasanaeth mewn amgylcheddau amrywiol, yn ôl y gofyn.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r un math a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â phersonau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.

